# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 20fed o Dachwedd 2017 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Alan H. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Arwel Pierce, Peter Parker, Griffith Evan Thomas

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Richard Evans

**PENDERFYNIAD:** Yn absenoldeb y Cadeirydd, fe etholwyd y Cynghorydd Alan H. Jones i'r gadair, gyda'r Cynghorydd Bethan Lawton yn cynnig a'r Cynghorydd Arwel Pierce yn eilio.

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Cyflwyniad: Arfon Hughes, Hwylusydd Tai Gwledig:

Croesawyd Mr Arfon Hughes i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Eglurodd Mr Arfon Hughes iddo fynychu cyfarfod Cyngor Bryncrug ddiwethaf yn 2006, ac yn y cyfnod hynny nid oedd nifer uchel o dai fforddiadwy wedi eu codi ym Mryncrug, gydag un neu ddau dy fforddiadwy wedi ei godi.

Yr oedd safle ger Ffordd y Felin yn safle posib ar gyfer tai, gyda'r safle wedi ei gynnwys ar y Cynllun Datblygu 1af, sawl blwyddyn yn ôl. Adroddwyd bod sawl safle arall ar gyfer tai angen ei gadarnhau drwy archwiliad.

Ar y rhestr aros am dai cymdeithasol, yr oedd 37 wedi rhestru ar gyfer Bryncrug, gydag oddeutu 16 ar gyfer Llanegryn.
Gyda'r canlynol:
20 yn dymuno cael byngalo 2 llofft
22 yn dymuno cael tŷ 2 llofft
1 yn dymuno cael tŷ 4 llofft
9 yn dymuno cael maisonette 1 llofft

Cafwyd wybod bod rent tŷ cymdeithasol 3 llofft oddeutu £100 yr wythnos.

Eglurodd yr hwylusydd y cynllun tai fforddiadwy i brynu neu rentu uwch a bod pedwar wedi cofrestru fel dewis cyntaf i fyw ym Mryncrug. Dau o'r rheiny eisoes yn byw yn y pentref, gydag un yn Llanegryn a'r olaf yn Aberdyfi.

Cyngor Gwynedd sydd yn gofalu am y rhestr o ymgeiswyr a'r rhestr aros am dy cymdeithasol o dan y Tîm Opsiynau Tai, gyda CCG a Grŵp Cynefin yn rhan o' cynllun.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yr oedd CCG wedi bod yn codi tai newydd ar dir ei hun, ond erbyn hyn yn chwilio am dir newydd. Grŵp Cynefin hefyd yn y broses o godi tai newydd. Gyda thai newydd, mae'n bosib rhoi blaenoriaeth i bobl leol ar gyfer tai newydd.

Adroddwyd bod y cynllun gweithiwr allweddol dal yn bodoli, a bod nifer o opsiynau, sef bod modd rhentu tŷ, prynu tŷ neu brynu tŷ yn rhannol.

Adroddodd Gynghorydd y bod pedwar unigolyn ifanc yn dymuno adeiladu tŷ yn y pentref. Cafwyd wybod gan yr hwylusydd nad oedd yn bosib iddo roi cymorth i unigolion ond y byddai yn medru rhoi cymorth i 2/3 ohonynt, neu eu rhoi mewn cyswllt a chyngor Gwynedd. Gydag adeiladu 10 tŷ neu fwy, roedd angen ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio, gydag unrhyw gynllun sydd gofyn am lai na 10 tŷ, nid oedd angen ymgynghori cyn cyflwyno cais.

Trafodwyd tai gwag yn y pentref, gyda rhai yn wag ers oddeutu 20/30 blwyddyn. Yr oedd Cyngor Gwyned yn cadw rhestr o dai gwag, sydd yn wag am gyfnod sydd yn fwy na chwe mis.

Trafodwyd Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a bod y cyfnod ymgynghori er mwyn cynnig tir newydd ar gyfer tai wedi mynd heibio. Cytunodd yr hwylusydd i gysylltu gyda Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn gofyn am arweiniad, parthed opsiynau er mwyn creu safleoedd adeiladu gan fod unigolion ifanc yn ei chael yn anodd adeiladu tai.

**PENDERFYNIAD:**
I dderbyn y wybodaeth gan yr hwylusydd.
Anfon llythyr at Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn mynegi pryder y Cyngor bod safleoedd adeiladu yn y pentref yn brin.

4. Derbyn cofnodion 16 Hydref 2017

**PENDERFYNIAD:**
I dderbyn y cofnodion, gyda'r Cynghorydd Griffith Evan Thomas yn cynnig ar Cynghorydd Arwel Pierce yn eilio'r cynnig.

5. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101576 | £166.64 |
| Cyllid a Thollau | Yswiriant Gwladol | 101577 | £41.60 |
| Y Ganolfan | Llogi Ystafell | 101578 | £36.00 |
| B Gwilym | Stamps | 101579 | £65.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

6. Cyfethol aelodau:

Nid oedd yr un cais am gyfetholiad wedi ei dderbyn. Adroddwyd y byddai un aelod o'r cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol cyn cyflwyno cais.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

7. Creu ffilm hanesyddol sydd yn cyfweld trigolion Bryncrug - adborth lleol:

Yn dilyn cynnwys gwybodaeth am greu ffilm yn y Cambrian News a phapur Dail Dysynni, adroddwyd y canlynol:
-un gŵr yn teimlo mai llyfr fyddai'r cyfrwng gorau o adrodd hanes y pentref
-trigolyn lleol wedi cysylltu er mwyn cynnig benthyg hen luniau
-trigolyn lleol wedi cysylltu er mwyn dweud y byddai'n fodlon cymryd rhan yn y fideo

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

8. Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Amgylcheddol - Gosod giât ar lwybr cyhoeddus rhif 6:

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad.

9. Comisiwn Ffiniau i Gymru - Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru - Cynigion Diwygiedig:

**PENDERFYNIAD:** Gwrthwynebu'r cynigion diwygiedig gan y byddai'r etholaeth newydd yn rhy fawr (yn ddaearyddol) i un person gynrychioli.

10. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Elswick Pines, Bryncrug (NP5/55/192A):

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad.

11. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad Blynyddol Drafft 2018/19:

Yr oedd adroddiad wedi ei dderbyn gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Ymysg argymhellion yr adroddiad, yr oedd angen i Gynghorau Chymuned a Thref o'r flwyddyn ariannol 2018/19 ymlaen dalu lwfans gwerth £150 i phob cynghorydd. Byddai talu'r lwfans yn fandadol o safbwynt y Cyngor, heblaw pe byddai cynghorydd yn datgan drwy lythyr nad oedd ef/hi am dderbyn y lwfans.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn yr adroddiad, gan gynnwys lwfans cynghorwyr yn y gyllideb ar gyfer blwyddyn 2018/19.

12. Cyngor Gwynedd - Ymgynghoriad - Clybiau Ieuenctid:

**PENDERFYNIAD:** I wrthwynebu cau clwb ieuenctid Bryncrug. I ffafrio opsiwn 3, ond yn cwestiynu beth fydd gweithiwr ieuenctid dalgylch Tywyn yn ei wneud, a'i canolbwyntio ar Tywyn neu fydd gweithgareddau hefyd ar gael yn llefydd fel Bryncrug?

13. Cae Chwarae - Adroddiad:

Nodwyd y canlynol:
-llanast y tu ôl i'r Pafiliwn
-bin ailgylchu (brown) heb gyrraedd
-Nyten ar goll ar siglen

**PENDERFYNIAD:**
I dderbyn y wybodaeth uchod.
I ofyn i Mr Kevin Jones edrych ar y siglen
I gysylltu gyda Chyngor Gwynedd parthed y bin ailgylchu

14. Cae Chwarae - Dyfynbrisiau torri gwair yn 2018:

Yr oedd dau ddyfynbris wedi ei dderbyn.

**PENDERFYNIAD:**
I anfon llythyr at y ddau gontractwr yn ymddiheuro, gan ddweud bod camgymeriad yn y llythyr yn gofyn am ddyfynbris, sef y dylai'r llythyr wedi gofyn am fanylion yswiriant atebolrwydd.
I drafod y dyfynbrisiau yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2017 ar ôl derbyn manylion yswiriant atebolrwydd.

15. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd wedi creu poster a pamffledi er mwyn annog trigolion i ddefnyddio'r we yn hytrach nac gwasanaeth ar y ffôn neu wyneb yn wyneb e.e. er mwyn archebu biniau ailgylchu ayyb ... Cafwyd wybod bod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn symud dail sydd ar y ffordd drwy ddefnyddio peiriant sugno, ac yn fodlon cynnal arolwg o'r sefyllfa pe byddai unrhyw gwynion yn cael eu derbyn.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth gan y Cynghorydd Sir.

16. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd wedi penderfynu dyrannu contract i gwmni Kingdom a bod nifer yn cwyno'n lleol.

**PENDERFYNIAD:**
I dderbyn y wybodaeth parthed Kingdom.
I symud dyddiad cyfarfod mis Rhagfyr 2017 ymlaen wythnos oherwydd y Nadolig.
I wneud ymholiadau ynglŷn a'r cais i greu mynediad cerbyd ar Ffordd y Felin.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:55pm

Llofnod y Cadeirydd ............................................................